CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei gweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Nicola Roberts** **Ward: Canolbarth Môn**
**Grŵp: Plaid Cymru**

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Rwyf wedi mwynhau fy rôl newydd fel Cynghorydd ers mis Mai y flwyddyn ddiwethaf. Mae wedi bod yn hynod o heriol ac yn llwybr dysgu serth i mi. Rwyf wedi mwynhau helpu'r cyhoedd, boed hynny gydag ymholiadau tai, rheoli gwastraff, priffyrdd, cynllunio neu geisiadau am wybodaeth gyffredinol.

Rwy'n mwynhau cynrychioli'r cyhoedd yn y Cyngor a gwneud yn siŵr bod gan y cyhoedd lais.

| **Rhwng Mai 2013 a Mawrth 2014, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | *** Ffigyrau Presenoldeb (darparwyd gan CSYM)** |
|---|---|
| Cyngor | 11 (84%) |
| Trwyddedu | 1 (100%) |
| Polisi Cynllunio ar y Cyd | 1 (50%) |
| Cynllunio a Gorchmynion | 10 (100%) |
| * Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. | |

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (wedi mynychu 4 cyfarfod).

Roeddwn hefyd yn gwasanaethu ar y Bwrdd Cyflawni integredig (Iechyd).

**Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Rwyf yn llywodraethwr ysgol yn Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig yn Llangefni. Rwyf hefyd yn Gynghorydd Tref yn Llangefni a byddaf yn ceisio bod yn egnïol yn fy nghymuned.

Yn ystod y flwyddyn, roedd modd i fy etholwyr gysylltu â mi ar y ffôn, trwy lythyrau, e-byst, blychau ar facebook a thrydar. Mae hyn wedi ei gwneud yn haws i fy etholwyr, o bob oed, gysylltu â mi ac ymgysylltu mewn materion lleol.

Rwyf wedi mynychu cyfarfodydd o Gyngor Tref Llangefni, Cyngor Cymuned Gwalchmai, Cyngor Cymuned Bodffordd, Cyngor Cymuned Llanddyfnan a Chyngor Cymuned Bryngwran mor aml ag y gallwn er mwyn ceisio helpu a chynrychioli'r gymuned leol.

Byddaf yn cyfarfod â mudiadau lleol ac rwyf mewn cysylltiad yn rheolaidd gyda rhai fel Cymunedau'n gyntaf Môn, Menter Gymdeithasol Llangefni ac ati.

Yn ddiweddar llwyddais i gael arian gan ddatblygwr lleol i roi hamperi Nadolig am ddim a theganau drwy Cymunedau'n Gyntaf Môn i bobl oedd yn ei chael yn anodd yn ystod y Nadolig diwethaf. Roedd hyn, wrth gwrs, gyda chefnogaeth busnesau lleol yn Llangefni neu ni fyddai hynny wedi bod yn bosibl. Rwyf wedi cynnal cymhorthfa leol yn fy nhref, unwaith yn rhagor er mwyn i fy etholwyr allu cysylltu â mi. Rwyf wedi cadw mewn cysylltiad agos â fy mhlaid wleidyddol yn arbennig yr aelod cynulliad lleol er mwyn bod ar y blaen gyda gwybodaeth ar yr heriau lleol a chenedlaethol sy'n ein hwynebu.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf wedi helpu mewn llawer o weithgareddau lleol gan gyfarfod hefo fy etholwyr ac rwyf wedi ceisio gwneud y mwyaf o unrhyw gyfleon cyllido i gefnogi mentrau lleol.

Rwyf wedi helpu Cymuned Bryngwran i godi ymwybyddiaeth o broblem cŵn yn baeddu drwy gael cwmni lleol i noddi taflenni gwybodaeth i'w rhannu'n lleol i nodi'r pwysigrwydd o lanhau ar ôl eich ci a'r peryglon os na wneir hynny. Rwyf yn gobeithio ymestyn hyn i gymunedau eraill oherwydd ei bod yn broblem eang.

Rwyf wedi helpu grŵp lleol ar amrywiol ddiwrnodau glanhau drwy gysylltu â nhw a'r Gwasanaeth Rheoli Gwastraff i gwblhau'r tasgau sydd wedi bod yn hynod o fuddiol ac rwy'n gobeithio y gallaf barhau i helpu'r grŵp a'r gwaith gwych y maent yn ei wneud.

**Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi mynychu nifer o wahanol sesiynau hyfforddi, bu'r cyfan ohonynt yn hynod o ddiddorol a byddant, rwy'n gobeithio, yn fy helpu i gyflawni fy mhotensial llawn fel Cynghorydd.

| **Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan CSYM):** | |
|---|---|
| Cyflwyniad i'r Gwasanaeth Cefnogi Aelod | Mai 2013 |
| Fframwaith Moesegol | Mai 2013 |
| Iaith Gymraeg / Diogelu Data / Y Wasg a Chyfryngau | Mai 2013 |
| Hyfforddiant Cofrestr Diddordebau | Mai 2013 |
| Hyfforddiant Pwyllgor Cynllunio | Mehefin 2013 |
| Cyfarfod Cynllunio Corfforaethol | Mehefin 2013 |
| Gweithdy Sgiliau Cadeirio Cyffredinol | Mehefin 2013 |
| Gwneud Mwy o Wahaniaeth mewn Sgriwtini | Mehefin 2013 |
| Hyfforddiant y Pwyllgor Trwyddedu | Gorffennaf 2013 |
| Cynnal Adolygiad Sgriwtini | Gorffennaf 2013 |
| Seminar Cynllunio – Pwyllgor Cynllunio | Medi 2013 |
| Gwneud i Gyfryngau Cymdeithasol Weithio i Gynghorwyr | Medi 2013 |
| Hyfforddiant Pwyllgor Gwaith Cysgodol | Medi 2013 |
| Hyfforddiant Adolygu Datblygiad Personol | Hydref 2013 |
| Hyfforddiant PINS | Tachwedd 2013 |
| Cyflwyniad Cyffredinol i Cynllunio | Rhagfyr 2013 |

**Gweithgareddau a Materion Eraill**

Rwyf wedi cymryd rhan weithredol yn fy nghymunedau a chadw mewn cysylltiad â f'etholwyr. Rwyf wedi ceisio gwneud y mwyaf o unrhyw gyfleon i gefnogi cymunedau yn fy ward. Rwyf hefyd wedi parhau i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â'r etholwyr lleol er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o fusnes y Cyngor. Rwyf hefyd wedi ceisio bod yn llais cryf yn cynrychioli safbwyntiau'r etholwyr yn y Cyngor ac rwy'n parhau i fod yn eiriolydd cryf i'r cyhoedd mewn ffordd onest a thryloyw.

**Y Cynghorydd Nicola Roberts** **Ebrill 2014**